

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 7 Tachwedd 2013

Amser:
09:15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llinos Madeley
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8403
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Agenda

(Cyfarfod cyn y prif gyfarfod 09:15 – 09:30)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (09:30 – 11:00) (Tudalennau 1 - 99)

Kate Chamberlain, Prif Weithredwr

Mandy Collins, Dirprwy Brif Weithredwr

Alyson Thomas, Diprwy Gyfarwyddwr Adolygu Gwasanaethau a Datblygu Sefydliadol

(Egwyl 11:00 – 11:15)

3 Papur briffio ffeithiol ar y Papur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru (11:15 – 12:15) (Tudalennau 100 - 107)

David Pritchard, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Gweithlu

Emma Coles, Pennaeth Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol

(Egwyl cinio 12:15 – 13:00)

4 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (13:00 –

14:00) (Tudalennau 108 - 112)

Mark Drakeford, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Grant Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth dros Iechyd Cyhoeddus
Janet Davies, Cynghorydd Arbenigol - Ansawdd a Diogelwch Cleifion

5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 113 - 119)

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar y Bil Gofal – trefniadau cyfatebol ar gyfer awdurdodau lleol yn yr Alban (Tudalennau 120 - 121)

Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: gwybodaeth ddilynol yn dilyn y cyfarfod ar 9 Hydref ynghylch gofal heb ei drefnu – bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14 (Tudalennau 122 - 146)

Llythyr gan Fwrdd Rhaglen Cynllun De Cymru: rhagor o wybodaeth ddilynol yn dilyn y cyfarfod ar 3 Hydref ynghylch ad-drefnu gwasanaethau byrddau iechyd lleol (Tudalennau 147 - 150)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer eitemau 1 a 2 ar agenda'r cyfarfod ar 13 Tachwedd

7 Trafod ymchwiliad arfaethedig y Pwyllgor i gaethiwed i feddyginiaethau a geir ar bresgripsiwn a dros y cownter (14:00 – 14:15) (Tudalennau 151 - 156)

8 Trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol: y Bil Gofal (14:15 – 14:30) (Tudalennau 157 - 169)

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Tystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

1. Cyflwyniad

Sefydlwyd AGIC yn 2004 fel arolygiaeth gofal iechyd yng Nghymru. Ers hynny, mae wedi cymryd cyfrifoldeb am amrywiaeth o swyddogaethau newydd:

2006	Gofal iechyd annibynnol Goruchwyliaeth statudol o fydwragedd
2007	Adolygiadau clinigol o farwolaethau yn y carchar Ymchwiliadau i ddynladdiadau Asiantaethau nyrsys Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddiad Meddygol) Tîmau Troseddau Ieuentid
2008	Camddefnyddio sylweddau
2009	Cyfrifoldebau'r Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl Cofrestru deintyddion preifat Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid
2011	Rheoliadau newydd ar gyfer gofal iechyd annibynnol

Mae pob un o'r swyddogaethau newydd hyn wedi atgyfnerthu swyddogaeth sylfaenol AGIC fel arolygiaeth arweiniol gofal iechyd yng Nghymru.

Mae nifer o fanteision i fodolaeth arolygiaeth gofal iechyd benodedig:

- Mae'n cydnabod cymhlethdod y gwasanaethau a'r lleoliadau sydd i'w harolygu
- Mae'n creu perthynas barhaus â chyrrff proffesiynol sy'n golygu y gellir defnyddio gwybodaeth arbenigol fel sail i'r broses arolygu
- Mae'n sicrhau bod ein gwaith wedi ei seilio ar ddealltwriaeth gref o gyd-destun y sector gofal iechyd

Fodd bynnag, nid yw'r model heb ei heriau gan fod cydgysylltu â chyfrifoldebau cyrrff adolygu eraill yn anorfod. Gall cydweithredu effeithiol oresgyn y rhan fwyaf o'r heriau hyn a bydd pwyslais penodol yn ystod y flwyddyn i ddod, ar sut y gallai trefniadau arolygu yn y dyfodol orfod datblygu i adlewyrchu cyfeiriad y newid tuag at ofal mwy integredig.

Mae'r swyddogaeth a'r diben (wedi'i gynnwys yn Atodiad A) y mae AGIC wedi ei seilio arnynt yn parhau i fod yn gadarn, ond rydym wedi bod yn myfyrio ar Ymchwiliad Francis i Ymddiriedolaeth GIG Canol Swydd Stafford; Adroddiad Keogh; a'r heriau sy'n wynebu gofal iechyd yng Nghymru, i asesu pa un a yw'r disgwyliadau o ran yr hyn y dylem fod yn ei ddarparu yn eglur, a pha un a ellir eu bodloni.

2. Effeithiolrwydd AGIC o ran cyflawni ei phrif swyddogaethau a'i chyfrifoldebau statudol

3. Swyddogaethau ymchwilio ac arolygu AGIC, yn enwedig ei chyfrifoldeb am sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol ar gael i gleifion, a'i gallu i ymateb i ddiwyddiadau sy'n peri pryderon difrifol a methiannau systemig

Mae dull AGIC o gyflawni ei swyddogaethau â'i wreiddiau wedi'u sefydlu ar foesau a gwerthoedd cadarn sydd wedi arwain at rai cryfderau amlwg. Yn benodol:

- Mae ein gweithgaredd arolygu wedi'i ganolbwyntio'n eglur ar anghenion materion sy'n flaenoriaethau a grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft ein harolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol, Glanweithdra a Rheoli Heintiau, Iechyd Meddwl a gwasanaethau Anabledd Dysgu
- Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer arolygu ac adolygu, sy'n ein galluogi i fynd at wraidd materion, ac mae hyn yn cynnwys y defnydd o hunanasesiadau wedi eu dilysu, arolygu uniongyrchol, yn ogystal ag adolygiadau gan gymheiriaid a gefnogir
- Mae ein timau o adolygwyr wedi eu cynllunio fel eu bod yn briodol ar gyfer y mater sy'n cael ei archwilio a gallant gynnwys cymysgedd o Arolygwyr AGIC, adolygwyr lleyg ac adolygwyr cymheiriaid arbenigol. Mae hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod buddion cleifion yn cael eu hadlewyrchu a bod hygredded proffesiynol i ganfyddiadau'r adolygiad
- Rydym yn rhoi prawf ar yr hyn a ddywedir wrthym trwy arsylwi'n uniongyrchol a thrwy drafodaethau gyda pherthnasau, cleifion a staff
- Rydym yn sicrhau ein bod yn cael darlun llawn a chywir o'r gofal y mae cleifion yn ei dderbyn trwy gynnal arolygiadau dirybudd, y tu allan i oriau gwaith arferol, ac ar benwythnosau
- Pan fo'n briodol, rydym yn cynnal adolygiadau ar y cyd gydag arolygiaethau eraill i sicrhau effeithlonrwydd a defnyddio sgiliau'n effeithiol; er enghraifft ein gwaith â'r Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gynnal adolygiadau clinigol o farwolaethau yn y ddalfa, a'n gwaith gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i adolygu agweddau ar iechyd ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid.
- Rydym wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r amgylchiadau pan fo defnyddwyr gwasanaeth sy'n wybyddus i'r gwasanaethau iechyd meddwl yn cyflawni dynladdiad

Rydym hefyd yn addasu ein rhaglen waith i ddarparu adolygiadau wedi eu targedu pan nodir pryderon; er enghraifft y rhaglen o adolygiadau ar gyfer darparwyr anabledd dysgu ac iechyd meddwl annibynnol ar ôl achos Winterbourne View, ac adolygiadau o lywodraethu fel gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Wrth gynnal adolygiadau o'r fath, rydym yn gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill pan ei bod yn briodol i wneud hynny.

Bydd ein cynllun busnes yn yr hydref hefyd yn dangos y meysydd yr ydym wedi eu nodi fel bod angen eu datblygu ymhellach

4. Datblygiad ac atebolrwydd cyffredinol AGIC, gan gynnwys pa un a yw'r sefydliad yn addas i'w ddiben

Mae AGIC wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran gwneud y defnydd gorau o'i allu a'i fedrusrwydd trwy gydweithredu; gan gyfeirio at waith eraill pan fo hynny'n briodol; ac yn fwy diweddar trwy gefnogi'r cyflwyniad o adolygiadau gan gymheiriaid mewn gwasanaethau gofal canser a gofal lliniarol. Mae defnyddio paneli o adolygwyr lleyg a chymheiriaid hefyd wedi

bod yn ffordd gost-effeithiol o sicrhau bod cleifion yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith a bod yr arbenigedd sydd gan arbenigwyr penodol yn cyfrannu at y gwaith yr ydym yn ei wneud.

Fodd bynnag, yn unol â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, mae AGIC wedi wynebu heriau ariannol. Mae'r sefydliad hefyd wedi profi lefel uchel o swyddi gwag sydd wedi bod yn anodd eu llenwi. Mae hyn wedi golygu ei bod yn anodd i AGIC gyfrannu mor gyson ac mor effeithiol ag y gallai ar draws yr ystod lawn o gyfrifoldebau sydd ganddi.

Mae swyddogaeth a diben y sefydliad yn parhau i fod yn gadarn, ac mae eisoes yn defnyddio dulliau sy'n casglu tystiolaeth yn uniongyrchol o brofiadau cleifion. Er hyn, mae'r amgylchedd y mae AGIC yn gweithredu ynddo yn newid yn sylweddol ac yn gyflym. Mae graddfa'r heriau sy'n wynebu gofal iechyd yng Nghymru, y cynnydd mewn disgwyliadau a'r craffu ar reoleiddwyr ac arolygwyr gofal iechyd, wedi arwain at archwiliad sylfaenol o fedrusrwydd a gallu AGIC i gyflawni yn ei hystod o swyddogaethau. Mae'r archwiliad hwn wedi ei gynnwys yn y broses o gynllunio'r busnes, ac fel y nodwyd uchod, bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn yr hydref. Bydd hwn yn dangos cryfderau'r sefydliad yn ogystal â'r meysydd lle y mae angen iddo ddatblygu ymhellach.

Yn dechnegol, mae AGIC yn rhan o Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, ond mae hi, a hynny'n gwbl gywir, yn annibynnol ar Weinidogion, yn enwedig y rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am lechyd a Gofal Cymdeithasol. Diogelir yr annibyniaeth hon drwy brotocol rhwng Gweinidogion Cymru a Phrif Weithredwr AGIC. Mae'r trefniant hwn wedi profi'n effeithiol hyd yma. Un modd o allu cryfhau llywodraethu fyddai trwy ychwanegu Bwrdd Cynghori Strategol cryf a fyddai'n darparu swyddogaethau craffu a herio gwaith AGIC, yn ogystal â gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer AGIC pan fo hynny'n briodol. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cynigion ar gyfer Bwrdd o'r fath yn ystod y misoedd i ddod.

5. Effeithiolrwydd perthynas waith sy'n canolbwyntio ar gydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng AGIC, rhanddeiliaid allweddol a chyrrff adolygu eraill

Mae gan AGIC hanes cryf o weithio'n agos ac yn gydweithredol ag eraill. Yng Nghymru, mae AGIC yn un o lofnodwyr y *Concordat Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau : Cytundeb Strategol*. Yn fwy cyffredinol, ledled y DU a thu hwnt, mae AGIC yn cynnal cysylltiadau da â chyrrff rheoleiddio y DU ac Ewrop, ac mae hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei hysbysu gan ddatblygiad arferion arolygu, ymchwilio a rheoleiddio effeithiol, ac yn dylanwadu ar yr arferion hynny.

O fewn y fframwaith hwn, mae AGIC yn:

- Cyfrannu at ddatblygiad pellach arferion proffesiynol arolygu, archwilio a rheoleiddio drwy rannu offerynnau arolygu ac adnoddau eraill; datblygu a defnyddio'r hyn a ddysgwyd a darparu datblygiadau ar y cyd; a chymryd rhan mewn gweithgareddau adolygu gan gymheiriaid;
- Cymryd rhan mewn gwaith rheolaidd a thematig ar y cyd megis ein gwaith gyda'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol a'r Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i gefnogi eu hadolygiadau o Dimau Troseddau Ieuentid a Charchardai Cymru; a'n gwaith parhaus ar y cyd gydag AGGCC i gyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau ynglŷn â'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. O ran gwaith thematig, un o'r enghreifftiau mwyaf diweddar yw cydadolygiad AGIC o Lywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gynhaliwyd mewn ymateb i bryderon cyffredin a difrifol;

- Rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth yn rheolaidd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd i gefnogi'r datblygiad o ddull mwy cymesur ac integredig o roi sicrwydd i'r cyhoedd. Un o'r prif ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw trwy hwyluso rhaglen flynyddol o gyfarfodydd, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar sefydliad GIG penodol yng Nghymru, pryd y bydd cyrff adolygu allanol yn dod at ei gilydd i rannu gwybodaeth.

Mae AGIC hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG; darparwyr gofal iechyd annibynnol a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru i greu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y gallwn ei wneud ar y cyd i wella gofal iechyd yng Nghymru trwy:

- Annog sefydliadau gofal iechyd i gryfhau eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd eu hunain er mwyn iddynt '*gael pethau'n iawn*' y tro cyntaf trwy well hunanasesu a hunan-welliant wedi'i dargedu
- Ymgysylltu â chlinigwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'u cynnwys yn uniongyrchol yn ein rhaglenni gwaith, e.e., fel aelodau 'cymheiriaid' o'n timau adolygu neu trwy ddarparu cyngor ynglŷn â chwmpas a dull ein rhaglenni gwaith. Yn y modd hwn, rydym yn gobeithio cyfrannu at 'ddatblygiad proffesiynol parhaus' gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a hwyluso'r gwaith o drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd yn ôl i sefydliadau gofal iechyd.
- Arwain y datblygiad o drefniadau mwy effeithiol o ran adolygiadau gan gymheiriaid. Mae cyflwyno Adolygiadau gan Gymheiriaid sy'n llai beichus yng Nghymru wedi cynnwys gweithio gydag uwch glinigwyr canser a gofal lliniarol ledled Cymru i nodi'r safonau sylfaenol a fydd yn darparu sail ar gyfer y drefn hon.

Mae AGIC o'r farn bod y trefniadau hyn wedi eu datblygu'n dda yn gyffredinol.

6. Ystyriaeth o swyddogaeth AGIC o ran cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu hadolygu.

Nod AGIC yw gweithio'n agos gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn ein cynorthwyo i ddeall anghenion a dewisiadau pobl, dysgu o'u profiadau o'r gwasanaethau iechyd a hybu didwylledd a thryloywder ynglŷn ag ansawdd gofal iechyd. Rydym yn cynnwys dinasyddion yn uniongyrchol yn ein gwaith trwy:

- Ymgynghori ynglŷn â'n cynlluniau cyffredinol a'n rhaglenni gwaith;
- Ceisio safbwyntiau a barn ynglŷn ag agweddau penodol ar ofal iechyd, neu mewn cymunedau ac ardaloedd penodol yng Nghymru;
- Gweithio gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd neu gynrychiolwyr i adolygu neu ddatblygu dulliau newydd o weithio;
- Cynnwys aelodau o'r cyhoedd fel adolygwyr 'lleyg' yn ein timau adolygu; a
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal iechyd trwy gyhoeddi ein hadroddiadau.

Fodd bynnag, mae angen datblygu a chryfhau ein trefniadau presennol. Er enghraifft, mae camau wedi cychwyn neu wedi eu cynllunio i:

- gwblhau proses recriwtio, hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus ar gyfer adolygwyr lleyg newydd

- datblygu ein cysylltiadau ymhellach â sefydliadau trydydd sector i gynnwys yr ystod ehangaf bosibl o gyfranogiad, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, gofalwyr a gwasanaethau i blant
- sefydlu dulliau gwell o weithio'n uniongyrchol gyda gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr cleifion i sicrhau ein bod yn gallu casglu eu safbwyntiau'n well a chryfhau eu cyfranogiad yn ein gwaith
- gwella ein perthynas waith ymhellach â Chynghorau Iechyd Cymuned yn genedlaethol ac yn lleol
- gwella ein gwefan a'r modd y mae gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

7. Trefniadau diogelu, y modd o ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban a gwybodaeth am gwynion yn benodol.

Mae AGIC yn cydnabod bod unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn gallu bod yn agored i niwed ac mae gennym gyfrifoldeb statudol penodol i ddiogelu a hybu hawliau plant. Mae ein rhaglenni gwaith, ein hofferynnau arolygu a'n harferion gwaith yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae gwasanaeth gofal iechyd yn darparu cymorth priodol i unigolion yn ystod y cyfnod y maent yn ymwneud â gwasanaethau iechyd. Rydym yn darparu nifer o raglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar sicrhau y diogelir lles a hawliau dynol unigolion o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth penodol; megis ein gwasanaeth monitro'r ddeddf iechyd meddwl; yn ogystal â rhaglenni gwaith â phwyslais penodol sydd wedi eu cynllunio i ymateb i bryderon mewn meysydd gwasanaeth allweddol, e.e. gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a gwasanaethau i bobl hŷn.

Rydym yn "gorff rhagnodedig" dan ddeddfau chwythu'r chwiban y DU.

Nid yw swyddogaeth statudol AGIC fel arfer yn cynnwys ymchwilio i bryderon neu gwynion unigol a dderbynnir gan gleifion, neu'r cyhoedd yn fwy eang, am amgylchiadau penodol gofal a thriniaeth claf unigol. Nid oes gan AGIC swyddogaeth benodol ychwaith o ran cwynion unigol am gamymddwyn proffesiynol, newid i drefniadau gwasanaeth na materion penodol sy'n destun proses gyfreithiol.

Yr eithriad a allai fod i hyn yw cwynion gan bobl (neu eu cynrychiolwyr) y mae eu hawliau wedi eu cyfyngu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfau perthnasol eraill ynglŷn â'r ffordd y mae staff gofal iechyd wedi defnyddio eu pwerau.

Gallai AGIC hefyd dderbyn gwybodaeth ynglŷn â chwynion gan asiantaethau/cyrff eraill sydd â swyddogaeth yn y gwaith o adolygu darpariaeth gofal iechyd, er enghraifft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chynghorau Iechyd Cymuned.

Fodd bynnag, er na chawn ymchwilio i bryder neu gŵyn unigol ynglŷn â gwasanaethau iechyd fel arfer, gallem wneud gwaith dilynol yn dilyn pryder unigol os yw'n bosibl bod problemau systemig ehangach yn bodoli mewn sefydliad.

Mae AGIC yn ystyried yn ddifrifol iawn unrhyw bryderon a godir sy'n awgrymu y gallai penderfyniadau a gweithredoedd darparwr gofal iechyd gael effaith andwyol ar ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth o ofal iechyd. Pan fo hyn yn digwydd, rydym yn penderfynu pa gamau allai fod angen eu cymryd (gan ystyried y math o ddatgeliad neu bryder neu nifer y pryderon tebyg a dderbyniwyd ynglŷn â gwasanaeth iechyd) a pha un ai ni sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu unrhyw gamau o'r fath ai peidio. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, rydym yn ystyried pa un a yw'r pryderon a godwyd eisoes wedi bod yn destun craffu blaenorol gan gyrrff cyhoeddus eraill.

Byddwn yn datblygu ein trefniadau yn y maes hwn er mwyn meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd am ein swyddogaeth o ran pryderon a chwynion; ac i sicrhau bod ein systemau gwybodaeth yn darparu rhybudd cynnar digonol o themâu a thueddiadau a allai olygu bod angen cymryd camau penodol.

Diben

AGIC yw'r arolygiaeth annibynnol arweiniol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei diben yw

Darparu sicrwydd annibynnol a diduedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd a gwneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hybu gwelliannau

Ein swyddogaeth

- Arolygu a chyflwyno adroddiadau yn annibynnol ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth o ofal iechyd gan gyrrff y GIG yng Nghymru
- Arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru
- Cyflawni cyfrifoldebau statudol penodol ar ran Gweinidogion Cymru
- Darparu gwybodaeth annibynnol a diduedd i gleifion ac i'r cyhoedd

Y canlyniadau yr ydym yn ceisio dylanwadu arnynt

- Bod dinasyddion yn cael gwell profiadau wrth dderbyn gofal iechyd
- Bod dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth eglur, amserol a didwyll ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod y gwaith o arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgyssylltiedig ac yn ychwanegu gwerth

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac maent yn sefydlu'r egwyddorion sylfaenol sy'n llywodraethu'r ffordd yr ydym yn gwneud ein gwaith. Ein gwerthoedd yw:

- *Canolbwyntio ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion*
- *Didwylledd a gonestrwydd*
- *Cydweithredu, rhannu ein profiadau ymysg ein gilydd ac â chyrrff adolygu eraill*
- *Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chymesuredd yn ein dull o weithio*
- *Cefnogi ac annog dysgu, datblygiad a gwelliant*
- *Proffesiynoldeb*
- *Gwaith wedi ei sbarduno gan wybodaeth*

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Cynulliad
Cenedlaethol Cymru**

Ymchwiliad i Waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**Eitem Ychwanegol i'w Chyflwyno gan Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru**

Cynnwys


- Dogfen 1** **Crynodeb o waith a chyfrifoldebau AGIC, gan gynnwys manylion gwaith a gyflawnwyd dros y 5 mlynedd ddiwethaf**
- Dogfen 2** **Dulliau a ddefnyddiwyd i wneud gwaith dilynol ar ôl arolygiadau a gynhaliwyd gan AGIC**
- Dogfen 3** **Astudiaethau Achos yn dangos sut y mae AGIC wedi cyflawni ei swyddogaethau**
- Dogfen 4** **Blaenraglen waith AGIC ar gyfer 2013-2014**

Dogfen 1

**Crynodeb o waith a chyfrifoldebau AGIC, gan gynnwys
manylion y gwaith a gynhaliwyd yn ystod y 5 mlynedd
diwethaf**

Gwaith a chyfrifoldebau AGIC

Mae ein gwaith a'n cyfrifoldebau yn amrywiol iawn ac ar 1 Tachwedd 2013 roeddent yn cynnwys:



Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi derbyn cyfrifoldebau newydd ac wedi colli eraill; nodir manylion y newidiadau hyn yn yr adrannau a ganlyn.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, ein nod yw sicrhau ein bod yn

- Arolygu o'i gymharu ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cydnabyddedig ac arfer gorau cydnabyddedig

- Canolbwyntio ar ba mor dda y diogelir pobl a allai fod mewn sefyllfaoedd sy'n eu gadael yn agored i niwed
- Nodi lle y mae gwasanaethau'n gwneud yn dda ac amlygu meysydd lle y mae angen gwella gwasanaethau
- Ymchwilio lle y gallai fod methiannau systemig wrth ddarparu gofal iechyd
- Cymryd camau ar unwaith os byddwn yn penderfynu nad yw diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yn bodloni safonau gofynnol
- Hysbysu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ynglŷn â safonau gofal iechyd yng Nghymru
- Sbarduno gwelliant trwy rannu gwersi a ddysgir

Ein pobl

Mae gennym 58 aelod o staff ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithio yn ein Timau Arolygu, Ymchwilio, Rheoleiddio, Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI), a Rheoli Gwybodaeth.

Rydym yn gweithio gyda phanel o adolygwyr allanol, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'r cyhoedd i gefnogi ein gweithlu craidd.

Dan y trefniadau hyn, mae pobl o Gymru a thu hwnt sydd â phrofiad arbenigol o ddarparu gwasanaethau iechyd a'r rhai sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd, yn gleifion, yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu'n ofalwyr, yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau.

Gallwn ddod o hyd i'r adolygwyr allanol trwy:

- Benodi aelodau staff gofal iechyd sy'n gymheiriaid o Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol
- Enwebu a phenodi arbenigwyr priodol trwy Academi'r Colegau Brenhinol, colegau Brenhinol unigol a chyrrff rheoleiddio proffesiynol
- Trefniadau contract ar gyfer darparu arbenigwyr i gynnal gwaith adolygu neu gynghori yn ei gylch
- Trefniadau cyrrff Arolygu, Archwilio ac Adolygu eraill yng Nghymru a'r DU;
- Ein proses wedi'i thargedu ein hunain ar gyfer recriwtio mewn meysydd arbenigol allweddol penodol

- Trefniadau partneriaeth â'r Trydydd Sector a chyrrff cynrychiadol eraill i gysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr a'u teuluoedd
- Gweithio gyda Bwrdd y Cyngorau Iechyd Cymuned neu Gyngorau Iechyd Cymuned unigol

Gweithio Gydag Eraill

Cynnwys ac Ymgysylltu â Dinasyddion yng Nghymru

Ein nod yw gweithio'n agos gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn ein helpu i ddeall anghenion a dymuniadau, i ddysgu o'u profiadau o wasanaethau iechyd ac i hybu agwedd agored a thryloyw ynglŷn ag ansawdd gofal iechyd.

Rydym yn gwneud hyn trwy:

- Cynnwys y cyhoedd fel *'adolygwyr lleig'* yn ein timau adolygu
- Gweithio gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, eu teuluoedd a grwpiau cynrychiadol i ddatblygu dulliau newydd o gyflawni ein gwaith
- Ceisio barn a safbwyntiau ar agweddau penodol ar ofal iechyd, neu o fewn cymunedau ac ardaloedd penodol yng Nghymru
- Ymgynghori ar ein cynlluniau a'n rhaglenni gwaith cyffredinol
- Darparu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gofal iechyd trwy gyhoeddi ein hadroddiadau.

Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector a chynrychiadol i helpu i sicrhau bod safbwyntiau grwpiau defnyddwyr gwasanaeth penodol, yn enwedig y rhai a gyrhaeddir yn anaml, yn dylanwadu ar yr hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud, ac yn cyfrannu at hynny.

Gweithio gyda llunwyr polisi a darparwyr gwasanaeth

Rydym yn cymryd rhan ymarferol mewn cynadleddau, gweithgorau a gweithgareddau datblygu er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y gallwn ei wneud ar y cyd i wella gofal iechyd yng Nghymru.

Rydym yn cymryd camau pendant i annog aelodau staff gofal iechyd i drefnu cyfnodau secondiad neu leoliadau gwaith yn ein timau arolygu er mwyn cefnogi eu

datblygiad proffesiynol eu hunain a chefnogi'r gwaith o rannu ymarfer ar draws darparwyr iechyd.

Gweithio gydag arolygwyr a rheoleiddwyr eraill, cyrff proffesiynol ac asiantaethau gwella

Ledled y DU a Thu Hwnt

Trwy ein hymrwymiad a'n cyfranogiad parhaus yng ngwaith '*Grŵp Pum Gwlad y DU ac Iwerddon*¹' o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, '*Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau'r DU*' a'r '*Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwylio (EPSO)*²,' rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan ymarfer arolygu, ymchwilio a rheoleiddio effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn dylanwadu ar ddatblygiad ymarfer o'r fath.

Rydym mewn cysylltiad â chyrff a rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol megis Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol yng Nghymru³, y Cyngor Meddygol Cyffredinol⁴ a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth⁵ i fanteisio ar arbenigedd proffesiynol i'n helpu i gyflawni ein gwaith ac i ddylanwadu ar ddatblygiad safonau proffesiynol ac ymarfer clinigol a chael ein llywio gan hynny.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae AGIC wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac aelodau Bwrdd Ailddilysiad Cymru i gefnogi a hwyluso datblygiad trefniadau newydd a sefydlwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer ail-ddilysu'r⁶ holl feddygon yn y DU. Mae AGIC hefyd wedi gweithio gyda'r Ddeoniaeth i dreialu datblygiad a gweithrediad fframwaith sicrhau ar gyfer gwerthuso.

¹ Mae grŵp '*Pum Gwlad*' y DU ac Iwerddon o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Care Quality Commission yn Lloegr; Healthcare Improvement Scotland; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), y Regulation and Quality Improvement Authority ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Health Information and Quality Authority ar gyfer Iwerddon.

² Sefydlwyd ESPO ym 1996 fel rhwydwaith Ewropeaidd o swyddogion sydd â dyletswydd i oruchwylio a monitro ansawdd gofal iechyd yn eu gwledydd. Ei nod yw gwell cydweithrediad ar ansawdd gwaith arolygu, goruchwylio a monitro mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

³ Mae gan Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol yng Nghymru swyddogaeth flaenllaw ym meysydd ailddilysu, hyfforddi ac addysgu Meddygon a'i nod yw siarad â llais eglur a phendant am faterion gofal iechyd cyffredinol er lles cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

⁴ Y Cyngor Meddygol Cyffredinol – corff annibynnol, statudol ar gyfer y DU gyfan sy'n cofrestru a rheoleiddio meddygon sy'n ymarfer yn y DU.

⁵ Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – corff annibynnol, statudol sy'n cofrestru a rheoleiddio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU.

⁶ Ailddilysu yw'r broses a ddefnyddir i'w gwneud yn ofynnol i feddygon trwyddedig ddangos yn rheolaidd bod eu gwybodaeth yn gyfredol a'u bod yn addas i ymarfer. Nod ailddilysu yw rhoi mwy o hyder i gleifion bod eu meddygon yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan eu cyflogwyr a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Yng Nghymru

AGIC, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru. Rydym yn cydweithio'n agos o fewn fframwaith Cytundeb Strategol⁷ i sicrhau ein bod i gyd yn cyfrannu'n ymarferol at y gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agosach gyda Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned, fel y gwelir gan y ffaith y cydariannwyd swydd yn 2012-2013 i ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o gydweithrediad rhwng ein sefydliadau. Byddwn yn cymryd camau yn ystod 2013-2015 i roi rhai cyfleoedd a nodwyd ar waith.

Concordat Cymru⁸

Cyflawnodd AGIC swyddogaeth allweddol wrth sefydlu a pharhau i gefnogi Concordat Cymru rhwng cyrff sy'n arolygu, rheoleiddio, archwilio a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. AGIC sy'n cadeirio ar hyn o bryd. Mae'r Concordat yn cael ei ddiweddarau bellach dan arweinyddiaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a bydd yr ymarfer hwn hefyd yn cyfrannu at ein gwaith cyfredol i ddisgrifio'n eglur y fframwaith sicrhau allanol ar gyfer y GIG.

Uwchgynadleddau gofal iechyd

Bob blwyddyn, mae AGIC yn hwyluso rhaglen flynyddol o uwchgynadleddau gofal iechyd, â phob un wedi'i chynllunio i ganolbwyntio ar Fwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd penodol yn y GIG yng Nghymru. Mae'r uwchgynadleddau'n cynnwys cyrff sy'n gweithio ledled Cymru ac sy'n gyfrifol am arolygu, archwilio, rheoleiddio a gwella gofal iechyd.

Mae'r uwchgynadleddau hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i ni rannu a phrofi'r wybodaeth sydd gennym am sefydliadau'r GIG, er mwyn datblygu asesiad cyffredin a chydlynol sy'n gyrru ein cynlluniau penodol.

⁷ Llofnododd y pedwar prif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru gytundeb yn 2011 i hybu trefniadau gweithio ar y cyd.

⁸ Cytundeb gwirfoddol rhwng cyrff arolygu, adolygu allanol a gwella sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw Concordat Cymru <http://www.walesconcordat.org.uk>

Memoranda Dealltwriaeth

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac yn rhannu gwybodaeth gyda llawer o sefydliadau partner yn unol â'r fframwaith a sefydlwyd yn ein Memoranda Dealltwriaeth a'n Protocolau Rhannu Gwybodaeth.

Sut rydym yn targedu ein gwaith

Ystyrir amrywiaeth eang o faterion wrth ddatblygu ein rhaglen waith a phenderfynu ynglŷn â'r hyn y dylem ei ystyried, pryd a sut:

- Y ffaith bod rhywfaint o risgiau'n gysylltiedig bob amser â rhai gwasanaethau, oherwydd eu natur, un ai oherwydd y gallai'r grŵp cleientiaid fod yn agored i niwed neu natur gymhleth y gwasanaeth
- Y ffaith bod ein gwybodaeth am wasanaeth neu sefydliad penodol yn dynodi meysydd o bryder neu dueddiadau sy'n peri pryder, efallai o ganlyniad i bryderon neu gwynion a dderbyniwyd
- Y ffaith bod canlyniadau ein gwaith blaenorol yn nodi meysydd lle'r oedd angen gwneud mwy o waith
- Gwybodaeth yr ydym wedi'i derbyn gan sefydliadau eraill, neu ganlyniadau gwaith adolygu arall
- Efallai fod y gwasanaeth neu'r pwnc yn flaenoriaeth genedlaethol gydnabyddedig i wasanaethau gofal iechyd
- Efallai fod safonau neu ofynion ansawdd newydd y gellid eu defnyddio i asesu'r ddarpariaeth, er mwyn nodi gwelliannau
- Efallai y bu anghydraddoldeb cydnabyddedig yn narpariaeth y gwasanaethau gofal iechyd, neu efallai fod cyfran uchel o'r boblogaeth yn cael ei heffeithio
- Efallai fod data perfformiad wedi nodi bod ansawdd yn amrywio neu y ceir meysydd o risg mawr sy'n effeithio ar rannau penodol o'r gymuned neu ardaloedd penodol yng Nghymru
- Efallai y bu pryder cyhoeddus arwyddocaol neu gynyddol
- Gellir sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf bosibl trwy gydweithio â chyrrff arolygu, archwilio neu adolygu eraill


Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae hyn wedi arwain at y canlynol:

- Gwaith rheoleiddio, arolygu a sicrhau rheolaidd sydd â'r nod o gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau eraill
- Nifer o adolygiadau trwy Gymru gyfan wedi'u targedu at feysydd o ddiddordeb arbennig
- Gwaith dilynol yn sgil adolygiadau ac arolygiadau cynharach
- Gwaith parhaus gydag eraill i lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer

Ein Pecyn o Ddulliau Gwaith

Rydym yn datblygu ac yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau gwaith i'n galluogi i asesu ansawdd a diogelwch gofal iechyd yn effeithiol. Trwy wneud hynny, ein nod yw mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol o wneud ein holl waith ac ymwreiddio ystyriaeth ymarferol o faterion cydraddoldeb yn ein dulliau a'n technegau arolygu ac ymchwilio.

Mae ein dulliau'n cynnwys:



GWAITH A WNAED YN YSTOD Y PUM MLYNEDD DIWETHAF

Wrth asesu ansawdd a diogelwch darpariaeth gofal iechyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi ceisio ateb tri chwestiwn allweddol:

- A yw sefydliadau gofal iechyd Cymru yn addas i'r diben?
- A yw cleifion a defnyddwyr gwasanaeth sydd o bosibl yn agored i niwed yn cael eu diogelu?
- A yw cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gofal gan aelodau staff sydd â'r hyfforddiant a'r cymwysterau priodol?

Ystyrir y cwestiynau hyn trwy gydol y rhaglen waith a ddisgrifir isod.

1) Asesu o gymharu â Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru cynharach

Rhwng 2007 a 2010, roedd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gynnal hunanasesiadau blynyddol o gymharu â'r safonau a gwneud datganiad cyhoeddus ynglŷn â'n perfformiad. Swyddogaeth AGIC oedd profi a dilysu'r asesiadau hyn.

Profwyd perfformiad mewn tri maes penodol a oedd yn ymwneud ag agweddau ar y safonau:

- profiad defnyddwyr: *sut brofiad y mae defnyddwyr yn ei gael ac a yw'n gwella?*
- canlyniadau gweithredol a chlinigol: *sut y sicrheir bod gwasanaethau a wardiau ysbytai yn cydymffurfio â'r safonau?*
- materion corfforaethol: *pa mor dda mae byrddau sefydliadau'r GIG yn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau?*

Dyfarwyd bod pob sefydliad yn cyrraedd un o bum lefel o aeddfedrwydd:

ymwybodol, ymatebol, datblygol, ymarferol neu arweiniol.

Yn ystod 2008-2009, cynhaliwyd ymweliadau dirybudd â phob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Unedau Mân Anafiadau, Wardiau Pediatrig, Wardiau Iechyd Meddwl i'r Henoed, Wardiau Meddygol ac unedau Asesu Meddygol. Ymwelwyd â sampl o wyth deg pump o feddygfeydd teulu ledled Cymru hefyd:

Roedd ein hasesiad ar gyfer 2008-09 yn canolbwyntio ar:

- **Amddiffyn plant** – gan fod achos y Baban Peter wedi amlygu pryderon arwyddocaol am wasanaethau yn Lloegr;
- **Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed** – gan fod ein hadolygiadau blaenorol wedi amlygu hwn fel maes lle'r oedd angen gwneud mwy o waith; a
- **Materion urddas a pharch** – gan fod y rhain yn hanfodol i brofiad cleifion/defnyddwyr gwasanaeth ac yn bwysig i ni gyd

trwy edrych yn fanwl ar 10 o'r 32 Safon, gan ganolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr a'r amgylchedd gofal.

Ein Dull Asesu ar gyfer 2009-10

Yn sgil cyflwyno'r byrddau iechyd newydd ym mis Hydref 2009, a chan gofio y byddai'r Safonau Gofal Iechyd yn cael eu disodli ym mis Ebrill 2010, mabwysiadwyd gwahanol ddull asesu ar gyfer 2009-10. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2009, paratowyd 'Datganiadau gwaddol' o ran pob un o'r hen sefydliadau a chyflwynwyd y rhain i arweinwyr y cyrff integredig newydd.

Rhwng mis Hydref 2009 a mis Mawrth 2010, yn hytrach na chynnal ymarfer 'unwaith y flwyddyn' penodol, defnyddiwyd canlyniadau ein rhaglen waith gyffredinol a gyflawnwyd yn ystod y chwe mis rhwng mis Hydref 2009 a mis Mawrth 2010 i lywio ein hasesiad o ba mor dda y llwyddodd y byrddau iechyd newydd i gyflawni'r Safonau.

Ein Dull Asesu ers mis Ebrill 2010

Yn dilyn adolygiad o bwys gan Lywodraeth Cymru o'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru yn 2009-10, lansiodd safonau diwygiedig - *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* - ar 1 Ebrill 2010.

Datblygwyd y dull o asesu'r safonau newydd gan AGIC ynghyd â'r GIG, a'r nod yw sicrhau bod y cyrff priodol, sef Byrddau sefydliadau'r GIG, yn atebol am sbarduno gwelliant. Ar lefel gorfforaethol, mae'r hunanasesiad yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau ystyried ac asesu ar y cyd i ba raddau y mae eu sefydliadau'n addas i'r diben a chyflwyno adroddiad ar ganlyniad eu hasesiad yn rhan o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y sefydliad.

Defnyddir ein rhaglen arolygu flynyddol, ein hadolygiadau arbennig a'n gwaith ymchwilio i gyfrannu at ein hasesiad o ba mor dda y mae sefydliadau yn cyflawni'r safonau. Mae trafodaethau mewn Uwchgynadleddau Gofal Iechyd yn profi ac yn archwilio hunanasesiad pob un o sefydliadau'r GIG gan nodi meysydd lle mae safbwynt y Bwrdd o'i aeddfedwydd sefydliadol yn wahanol i un a gyflwynir gan y cyrff archwilio, adolygu a rheoleiddio.

Cafodd y themâu cyffredin a oedd yn deillio o'n proses asesu flynyddol eu bwydo'n ôl i sefydliadau yn ffurfiol trwy lythyr at y rheolwyr ac yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2010-2011. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i Ymchwiliad Francis yn gynharach eleni, ei bwriad i adnewyddu Safonau *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well* ac mae trafodaethau yn parhau ag arweinwyr polisi yn hyn o beth.

2) Adolygiadau o Drefniadau Llywodraethu Sefydliadau

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Ym mis **Mawrth 2012**, cyhoeddodd AGIC adroddiad ar ei hadolygiad o'r trefniadau llywodraethu ac atebolwydd a sefydlwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf i sicrhau ansawdd a diogelwch gofal cleifion.

Gan ystyried yr heriau ym maes llywodraethu a nodwyd eisoes gan Fyrddau'r GIG yng Nghymru yn eu hunanasesiadau '*Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*', edrychodd yr adolygiad ar y materion penodol sy'n wynebu Bwrdd Iechyd Cwm Taf gan wneud nifer o argymhellion. Roedd y rhain yn cyfateb i lawer o'r materion sy'n wynebu byrddau iechyd ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar:

- Swyddogaeth a gweithrediad y prif Fwrdd, ei bwyllgorau a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion
- Cyfathrebu gweledigaeth ac amcanion y sefydliad, a chyfranogiad mewn partneriaethau
- Y swyddogaeth a gyflawnir gan y Bwrdd Gweithredol, o ran cefnogi strwythur sefydliadol, timau clinigol ac arweinyddiaeth, a phrosesau datblygu a gwerthuso aelodau staff
- Rheoli risg
- Mynediad at wybodaeth, ac effeithiolrwydd herio, craffu a monitro perfformiad
- Ymdrin â chwynion, pryderon a hawliadau cleifion
- Dadansoddi tueddiadau, cynllunio camau gweithredu a rhannu gwersi a ddysgwyd

Er ei fod yn canolbwyntio ar Fwrdd Iechyd Cwm Taf, cododd ein gwaith craffu ar y sefydliad penodol hwn nifer o bwyntiau dysgu a oedd hefyd yn berthnasol i sefydliadau'r GIG a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ehangach ledled Cymru. Felly gweithiasom gyda Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac asiantaethau datblygu fel yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yng Nghymru (NLIAH) ar y pryd, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar lefel Cymru gyfan.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Roedd gwaith a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC ar ddiwedd 2012 yn amlygu nifer o heriau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran llywodraethu, atebolrwydd a materion cyflwyno gwasanaethau. Hysbyswyd y Bwrdd am y rhain yng nghanfyddiadau Asesiad Strwythuredig ac Adroddiad Archwilio Blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012 ac yn adolygiad AGIC o ofal cleifion yn Ysbyty Glan Clwyd. Fe'u hadlewyrchwyd ymhellach mewn adolygiad ansawdd a diogelwch y mae AGIC wedi bod yn ei gynnal yn ystod diwedd 2012/ dechrau 2013.

Ar ôl ystyried pryderon cyffredin AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, penderfynwyd y dylid cychwyn adolygiad sengl o Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Diben yr adolygiad hwn oedd ystyried:

- Effeithiolrwydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau
- Strwythur sefydliadol a llinellau atebolrwydd mewnol
- Gweledigaeth strategol ac ad-drefnu gwasanaethau
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Diwylliant y sefydliad
- Perfformiad o'i gymharu â thargedau a dangosyddion allweddol ar gyfer ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau
- Rheoli a monitro perfformiad
- Rheolaeth a chynaliadwyedd ariannol

3) Rheoleiddio'r Sector Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Trwy gofrestru ac arolygu, rydym yn rheoleiddio'r sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau cysylltiedig a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru⁹.

Rydym yn arolygu lleoliadau gofal iechyd annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o'n rhaglenni arolygu rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys; arolygiadau urddas a gofal hanfodol ac archwiliadau glanweithdra ar hap, yn ogystal â rhaglen benodol wedi'i thargedu at leoliadau annibynnol sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl.

⁹ Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru – Datganiad o safonau gofynnol cenedlaethol sy'n berthnasol i ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol. Fe'i gwnaed gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn unol â phwerau a roddwyd dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Diwygiwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mis Ebrill 2011. Mae'r Safonau cyfredol ar gael yn <http://www.hiw.org.uk>

Yn yr un modd â sefydliadau'r GIG, rydym yn monitro darparwyr gofal iechyd annibynnol, gan ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gennym o amrywiaeth o ffynonellau.

Mae'r tabl isod yn cynnwys ymweliadau dilynol a gynhaliwyd lle'r oedd pryderon yn cyfiawnhau camau o'r fath. Hefyd, yn rhan o'r gwaith dilynol, cynhaliwyd cyfarfodydd gweithredu gyda darparwyr a chomisiynwyr yn ogystal â nifer o weithdai cenedlaethol.

	Blwyddyn ariannol				
Math o weithgaredd	2009- 2010	2010 –2011	2011 –2012	2012 –2013	2013 –2014 ar 1 Tach
Cofrestriadau newydd	1022	219	151	130	98
Newidiadau i gofrestriadau	3	15	10	7	6
Dad-gofrestru	12	15	117	95	90
Nifer yr ymweliadau arolygu	54	53	61	19	10 (+26)*

*26 o ymweliadau â darparwyr nad ydynt wedi eu cofrestru

Daeth rheoliadau newydd i rym ar 1 Tachwedd 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddeintyddion sy'n darparu deintyddiaeth breifat ar unrhyw lefel gael eu cofrestru gydag AGIC. Fel y gellir gweld o'r tabl uchod, cafodd hyn effaith fawr ar nifer y cofrestriadau newydd a wnaed yn 2009-2010.

Un o elfennau allweddol ein gweithgarwch monitro parhaus oedd ein hadolygiad o ddigwyddiadau hysbysadwy neu ddigwyddiadau anffafriol difrifol yr oedd yn ofynnol ein hysbysu amdanynt trwy gydol y flwyddyn. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i unigolion cofrestredig¹⁰ ein hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau penodol a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion¹¹. Nodir nifer a math y digwyddiadau

¹⁰ Unigolyn sy'n ddarparwr cofrestredig (unigolyn sy'n rhedeg gwasanaeth ar ei ben ei hun) neu reolwr cofrestredig sefydliad neu asiantaeth.

¹¹ Roedd Rheoliad 27 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 yn darparu ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a allai effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch cleifion. Daeth Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 newydd i rym ar 5 Ebrill 2011.

hysbysadwy a dderbyniwyd ac a gafodd eu monitro gan AGIC ers 1 Ionawr 2012 isod.

Math o Ddigwyddiad	Cyfanswm	Cyfartaledd y mis	Cyfartaledd y flwyddyn
Marwolaeth claf mewn hosbis	1204	54.73	656.73
Marwolaeth claf (ac eithrio hosbisau)	15	0.68	8.18
Absenoldeb Heb Ganiatâd	90	4.09	49.09
Anaf Difrifol	86	3.91	46.91
Achosion o Glefyd Heintus	6	0.27	3.27
Honiad o gamymddwyn gan aelod o staff yn arwain at niwed gwirioneddol neu bosibl	67	3.05	36.55

4) Arolygiadau yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag Urddas a Gofal Hanfodol

Yn **2008-2009**, dechreuodd AGIC ar raglen barhaus o ymweliadau dirybudd yn canolbwyntio ar urddas a pharch. Gan adeiladu ar y gwaith cynharach hwn, a chan ystyried nifer o adroddiadau allanol a gyhoeddwyd gan sefydliadau fel Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â safbwyntiau'r cyhoedd, cyflwynwyd rhaglen wedi ei diweddarau yn **2011** o archwiliadau dirybudd ar hap, o'r enw Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol.

Roedd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar y gofal hanfodol, y diogelwch, yr urddas a'r parch yr oedd cleifion yn eu cael yn yr ysbyty, gan gynnwys yn benodol:

- Amgylchedd y cleifion

Disodlwyd rheoliadau 2002 ganddynt a gelwir hysbysiadau Rheoliad 27 yn hysbysiadau rheoliad 30/31 bellach. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion ar ddarparwyr a rheolwyr gofal iechyd annibynnol cofrestredig yn y cyswllt hwn ar gael yn www.hiw.org.uk

- Agwedd/ymddygiad aelodau staff a'u gallu i ddarparu gofal ag urddas
- Cynllunio a darparu gofal
- Briwiau Pwyso
- Hylif a maeth
- Gofal a hylendid personol
- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach
- Seinyddion
- Cyfathrebu
- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen
- Rheoli cofnodion
- Rheoli cleifion dryslyd
- Gweithgareddau a symbyliad
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau

Yn **2011-2012**, ymestynnwyd ein rhaglen ymweliadau i gynnwys penwythnosau yn ogystal â diwrnodau'r wythnos, a chafodd ymweliadau min nos ac yn ystod y nos eu cynnwys yn **2012-2013**. Parhawyd i ganolbwyntio ein sylw ar gleifion hŷn, gan fod gwaith ymchwil yn dangos y gallai'r grŵp hwn deimlo'n arbennig o agored i niwed pan fyddant yn aros yn yr ysbyty.

	Blwyddyn ariannol				
Math o weithgaredd	2009- 2010	2010 –2011	2011 –2012	2012 –2013	2013 -2014 ar 1 Tach
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	*200	0	5	8	3 (bwriedir cynnal 8 arall)

*Rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2009, cynhaliwyd ymweliadau dirybudd â phob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Unedau Mân Anafiadau, Wardiau Pediatrig, Wardiau Iechyd Meddwl i'r Henoed, Wardiau Meddygol ac unedau Asesu Meddygol. Ymwelwyd â sampl o **wyth deg pump o feddygfeydd teulu** ledled Cymru hefyd. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn yn rhan o'n gwaith asesu Safonau Gofal Iechyd a oedd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag urddas a pharch.

Bydd y rhaglen arolygu hon yn cael ei hehangu a'i datblygu ymhellach yn **2013-2014**, gan gynnwys:

- Adolygu'r dulliau o arolygu urddas a gofal hanfodol ar wardiau, gan gynnwys mapio'r dulliau yn unol ag Adroddiad Francis, gan wneud cysylltiadau eglur â

meysydd penodol hanfodion gofal, a diweddarau dogfennau'r arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn unol ag adborth adolygwyr

- Datblygu'r prosesau arolygu urddas a gofal hanfodol i sicrhau bod y cysylltiadau a'r cyfeiriad at rybuddion diogelwch cleifion a sut y defnyddir data diogelwch cleifion mewn arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn eglur, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid fel Diabetes UK i nodi meysydd i'w gwella, ffynonellau gwybodaeth ychwanegol posibl, a modiwlau ychwanegol i gynnwys meysydd fel gofal diabetig a mewnbwn therapiwtig ar wardiau lle y mae pobl yn aros am gyfnodau hir

5) Arolygiadau yn canolbwyntio ar yr amgylchedd gofal

Cyflwynodd AGIC arolygiadau rheoli heintiau dirybudd at ei phortffolio o arolygiadau rheolaidd yn **2006-07**. Fe'u cyflwynwyd mewn ymateb i bryder cynyddol ymhlith y cyhoedd am MRSA, C. difficile a norofeirws. AGIC oedd arolygiaeth gyntaf y DU i gyflwyno'r math hwn o arolygiad dirybudd, sy'n defnyddio tystiolaeth lluniau i gefnogi ei chanfyddiadau.

Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer archwiliadau glanweithdra ar hap mewn ysbytai yn seiliedig ar ddull y Gymdeithas Nyrsys Rheoli Heintiau (ICNA). Mae'r dull a fabwysiadwyd yn dibynnu ar arsylwi uniongyrchol, holi aelodau staff ac adolygu dogfennau allweddol. Mae'r tîm adolygu yn cynnwys nyrs rheoli heintiau ac adolygwr lleyg.

Mae'r holl ymweliadau yn ddirybudd. Rhoddir adborth i'r uwch reolwyr yn syth ar ôl i'r ymweliad ddod i ben ac mae'n ofynnol i'r sefydliadau ddarparu cynllun gweithredu i ni o fewn pythefnos i gyhoeddi ein hadroddiad, yn nodi sut maent yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a meysydd o bryder a nodwyd.

Ymwelodd ein timau adolygu ag amrywiaeth o wardiau sy'n darparu gwasanaethau megis gwasanaethau meddygol cyffredinol, llawdriniaeth gyffredinol, mamolaeth a gynaeoleg.

	Blwyddyn ariannol				
Math o weithgaredd	2009- 2010	2010 –2011	2011 –2012	2012 –2013	2013 –2014 ar 1 Tach
Arolygiadau Rheoli Heintiau – wardiau/unedau	182*	22	25	2	0 (16)

yr ymwelwyd â nhw					arfaethedig)
-------------------	--	--	--	--	--------------

* Ymwelwyd â 23 o ysbytai a 170 o wardiau ac unedau ledled Cymru yn rhan o adolygiad Cymru gyfan o Ddolur Rhydd a Chwydu. Rhoddwyd llythyrau rheoli i bob un o'r 9 ymddiriedolaeth ar y pryd

Bydd y rhaglen arolygu hon yn cael ei hehangu a'i datblygu ymhellach yn **2013-2014**, gan gynnwys:

- Datblygu'r pecyn cymorth rheoli heintiau i sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar reoli heintiau yn hytrach na glanweithdra
- Ehangu'r broses arolygu i adlewyrchu'r broses a ddilynir ar gyfer ein harolygiadau urddas a gofal hanfodol
- Ehangu modiwlau i gynnwys pwyslais ar theatrau; radioleg; C.Difficile ac MRSA

6) Ymweliadau Anawsterau Dysgu

Ym mis Mai 2011, darlledodd y BBC raglen a oedd yn amlygu'r gamdriniaeth a ddiodefyd gan unigolion ag anawsterau dysgu a oedd yn preswyllo mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd. O ganlyniad, penderfynodd AGIC gyflwyno rhaglen o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

Pwyslais yr adolygiadau hyn oedd sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Yn gallu defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Yn cael eu cefnogi i gynnal perthynas gyda theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

Cynhaliwyd ymweliadau dirybudd â phob ysbyty iechyd meddwl annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn ar wahanol adegau o'r diwrnod, gan gynnwys dros y penwythnos, gyda'r nos ac yn gynnar yn y bore fel bod safbwynt ein harolygwyr o'r gofal a ddarperir mor wrthrychol a chyfannol â phosibl.

Ni wnaeth ein hadolygiadau amlygu'r bwlio a'r creulondeb a nodwyd gan raglen Panorama, ond nodwyd nifer o feysydd i'w gwella ac maent wedi arwain at raglen o waith dilynol wedi'i thargedu.

cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau sefydlu a hyfforddi staff a chofnodion cwynion, ataliaeth gorfforol a digwyddiadau.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rhoddir adborth ar unwaith i uwch reolwyr ar ddiwedd yr ymweliad ac mae disgwyl i sefydliadau ddarparu cynllun gweithredu i ni yn manylu sut y maent yn bwriadu rhoi sylw i unrhyw broblemau a meysydd o bryder a nodwyd.

Manylion yr Achos

Cynhaliwyd ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol yn ardal Caerdydd ym mis Medi 2011. Codwyd materion mewn cysylltiad â lefel staffio, y gordefnydd o staff asiantaeth, hyfforddiant ac addasrwydd lleoliad un claf penodol. Tynnwyd ein sylw hefyd, gan gleifion ar rai wardiau, at y diffyg gweithgareddau, a chyfyngiadau ar ddiodydd a mynediad i fannau tu allan. Roedd hyn yn peri inni gredu bod agwedd gyffredinol yn cael ei dilyn o ran risg.

Adroddiad

Rhoddwyd adborth i uwch reolwyr cyn i ni adael y sefydliad. Yn ystod y cyfarfod hwn trafodwyd a chytunwyd ar y camau gweithredu yr oedd yn ofynnol gan AGIC i'r sefydliad eu cymryd i roi sylw i'r materion a nodwyd.

Anfonwyd llythyr Rheoli Camau Brys at y darparwr.

Camau Dilynol

Cyfarfu AGIC â'r Rheolwr Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol ac aelodau eraill o'r tîm uwch yr wythnos ganlynol i drafod y camau yr oeddent yn eu cymryd i roi sylw i'r materion a nodwyd. Cytunwyd na fyddai'r sefydliad yn derbyn rhagor o gleifion hyd nes i'r materion staffio gael eu datrys. Cynhaliwyd cyfarfod arall gyda'r darparwr ym mis Hydref 2011 i drafod yr hyn a gyflawnwyd. Cynhaliwyd rhagor o ymweliadau lle y rhoddwyd rhybudd, ac mae rhagor eto wedi'u cynllunio.

Yn ogystal â chwedd â'r darparwr, cyfarfu AGIC â chomisiynwyr i'w hysbysu am y camau yr oeddent wedi'u cymryd ac i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y cleifion yr oeddent yn comisiynu gwasanaethau ar eu cyfer yn ddiogel ac wedi'u lleoli'n briodol.

Cynhaliwyd dau weithdy gyda darparwyr gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl annibynnol i gyfathrebu'r themâu sy'n codi o adolygiadau fel hwn, ac i sicrhau y cyflwynir gwelliannau ac y dysgir gwersi.

Astudiaeth Achos 7

Maes: Gweithio gyda phartneriaid i rannu ac ymateb i wybodaeth

Adolygiad Penodol: Ymweliad dirybudd ag ysbyty anabledd dysgu/iechyd meddwl annibynnol

Manylion yr achos

Mae AGIC yn cydgysylltu yn rheolaidd â Grŵp Comisiynu Cydweithredol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu GIG Cymru. Roedd gwybodaeth a rannwyd gydag AGIC ym mis Gorffennaf 2013 yn amlygu pryderon mewn cysylltiad â darparwyr annibynnol penodol, yn arbennig ynghylch arsylwi a lefelau staffio.

Cynhaliodd AGIC ymweliad dirybudd brys â'r sefydliad gyda'r nos ar y diwrnod y cafodd wybod am y pryderon. Roedd staff o Grŵp Comisiynu Cydweithredol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu GIG Cymru yn bresennol gydag AGIC.

Adroddiad

Rhoddwyd adborth i uwch reolwyr cyn i ni adael y sefydliad. Yn ystod y cyfarfod hwn trafodwyd a chytunwyd ar y camau yr oedd yn ofynnol gan AGIC i'r sefydliad eu cymryd i roi sylw i'r mater a nodwyd.

Anfonwyd llythyr Rheoli Camau Brys at y darparwr.

Camau Dilynol

Cynhaliwyd ymweliad dirybudd mwy manwl dros dri diwrnod (25-26 Gorffennaf 2013). Roedd pwyslais yr ymweliad ar sicrhau diogelwch ac ansawdd gofal y cleifion.

Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal hefyd gyda chomisiynwyr a thimau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, i roi gwybod iddynt am bryderon AGIC ac i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau priodol i sicrhau diogelwch eu cleifion.

Bu trafodaeth reolaidd a chymau dilynol gyda'r sefydliad sy'n darparu; cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf gyda'r Unigolyn Cyfrifol, y Rheolwr Cofrestredig ac aelodau eraill o'r tîm uwch ym mis Hydref 2013.

Mae AGIC yn parhau i fonitro a gweithio gyda'r darparwr. Bwriedir cynnal rhagor o ymweliadau.

Astudiaeth Achos 8

Maes: Datblygu Dulliau Arloesol sy'n sicrhau ymgysylltiad Clinigwyr

Adolygiad Penodol: Adolygiad gan Gymheiriaid (a mwy)

Cefndir

Yn 2009 cysylltodd Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gan ei fod yn dymuno archwilio cyfleoedd ar gyfer cyflwyno adolygiad gan gymheiriaid ym maes cancer yng Nghymru. Gan fod pob adolygiad a gynhelir gan AGIC yn cynnwys lefel o adolygiad gan gymheiriaid,¹ ac o dderbyn bod gwasanaethau cancer yn faes blaenoriaeth allweddol i'r ddau sefydliad, teimlwyd y gellid dod â gwybodaeth ac arbenigedd y ddau sefydliad at ei gilydd i ddatblygu dull o adolygu gan gymheiriaid yng Nghymru a oedd yn effeithiol, yn effeithlon ac yn drylwyr.

Yn 2010, gan weithio gyda chlinigwyr arweiniol ledled Cymru a'r Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser, cynhaliodd AGIC gynllun peilot er mwyn datblygu'r broses adolygu gan gymheiriaid. Bu'r profiad yn un cadarnhaol mewn sawl ffordd, a chafwyd croeso brwd iddo gan glinigwyr ac aelodau o dimau amlddisgyblaeth. Fodd bynnag, amlygwyd diffygion yn y broses ac ers hynny mae gwaith wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r rhain. Roedd y gwendidau hyn yn adleisio'r profiadau yn Lloegr:

- nifer fawr o fesurau i'w hystyried wrth asesu.
- dim digon o waith i ddadansoddi data a gwybodaeth cyn yr ymweliad adolygu gan gymheiriaid, i alluogi clinigwyr i ganolbwyntio ar feysydd allweddol.
- diffyg mesurau canlyniad.
- canllawiau annigonol wedi'u darparu i'r timau sy'n darparu'r gwasanaeth i'w galluogi i hunanasesu a dilysu'n fewnol yn briodol.

Cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot ac o ganlyniad gwnaed argymhellion ar gyfer proses newydd, fwy cadarn a datblygwyd gwaith dilynol ychwanegol.

Dull Adolygu

¹ Mae AGIC wedi recriwtio panel o adolygwyr cymheiriaid sydd ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad mewn sawl arbenigedd. Mae'r tîm ar gyfer pob on o adolygiadau AGIC yn cynnwys cymheiriaid â'r cefndir a'r profiad proffesiynol perthnasol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser ac AGIC wedi bod yn cydweithio i ymchwilio, datblygu a phrofi dulliau adolygu gan gymheiriaid, gyda golwg ar gyflwyno rhaglen dreigl o adolygiadau **ar draws** Cymru yn 2012-13. Datblygwyd y model a nodir yn y papur hwn fel bod modd ei addasu i unrhyw wasanaeth a thîm amlddisgyblaeth. Fe'i cynlluniwyd i wneud y defnydd gorau o amser clinigwyr a chadw'r gost mor isel â phosibl, trwy i'r ddau gorff sydd eisoes â chylch gorchwyl i oruchwyllo ac adolygu gwasanaethau cancer gefnogi'r broses.

Gan weithio â chlinigwyr cancer a gofal lliniarol, datblygwyd dull o adolygu gan gymheiriaid sy'n cynnwys:

- hunanasesiad
- dilysu mewnol
- dilysu allanol
- ymweliadau adolygu gan gymheiriaid

Er mwyn cefnogi'r broses adolygu gan gymheiriaid, datblygwyd a chytunwyd ar fesurau canlyniad ar gyfer pob safle cancer a adolygwyd hyd yn hyn. Mae'r gwaith hwn wedi'i arwain gan Gadeiryddion Grwpiau Cyngori ar Ganser Cymru Gyfan.

Mae canllawiau a hyfforddiant wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno ar gyfer

- timau – sut i hunanasesu'n briodol
- dilyswyr mewnol – sut i brofi a dilysu hunanasesiadau
- dilyswyr allanol – sut i brofi a dilysu hunanasesiadau
- timau adolygu cymheiriaid - sut i gyfweled a chasglu tystiolaeth

Adroddiad

Hyd yn hyn, yn 2012-13, cynhaliwyd adolygiadau gan gymheiriaid o ofal lliniarol, cancer yr ysgyfaint a'r llwybr gastroberfeddol uchaf ac mae adolygiadau o Wroleg wedi'u cynllunio ar gyfer dyddiadau diweddarach yn y flwyddyn ariannol hon. Mae adroddiadau wedi cael eu cyflwyno i'r sefydliadau ac mae fersiynau hawdd i'r cyhoedd eu deall yn cael eu paratoi.

Camau Dilynol

Rhodddwyd adborth ynglŷn â phryderon i'r timau clinigol ar ddiwrnod yr ymweliad. Lle yr amlygwyd pryderon uniongyrchol, symudwyd y rhain i fyny ar unwaith ac anfonwyd llythyrau camau brys at Brif Weithredwr y sefydliad dan sylw o fewn tri diwrnod. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gydag uwch reolwr lle'r oedd angen.

Astudiaeth Achos 9

Maes: Meincnodi a dysgu gan arolygiaethau eraill

Adolygiad Penodol: Grŵp Rheoleiddwyr y 5 Gwlad a'r Bartneriaeth Ewropeaidd ar gyfer Sefydliadau Goruchwyllo mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (EPSO)

Cefndir

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill ar draws y DU ac Ewrop. Mae'n cymryd rhan mewn digwyddiadau rhannu a dysgu ac mae ganddi swyddogaeth allweddol mewn datblygu dulliau adolygu gan gymheiriaid trwy EPSO.

AGIC oedd un o'r arolygiaethau annibynnol cyntaf i wahodd adolygiad gan gymheiriaid o'i dulliau gwaith, gan wahodd cydweithwyr o Quality Improvement Scotland fel yr oedd bryd hynny i gynnal adolygiad gan gymheiriaid o effeithiolrwydd ein dull asesu Safonau Gofal Iechyd. Roedd eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008 yn rhoi disgrifiad manwl o gryfderau a gwendidau'r dull gwaith, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi gwelliant a datblygiad yn y dyfodol.

Ar ôl cyfrannu'n llwyddiannus at adolygiad gan gymheiriad o Fwrdd Goruchwyliaeth Iechyd Norwy yn 2011-12, mae AGIC yn cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid o Fwrdd Goruchwyliaeth Iechyd Denmarc.

Dull Adolygu

Wrth ddatblygu cwmpas ac ymdriniaeth yr adolygiadau gan gymheiriaid, rhoddwyd ystyriaeth i'r safonau y mae sefydliadau eraill wedi'u datblygu ar gyfer cyrff goruchwyllo ac archwilio gan gynnwys y rhai a bennwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Ansawdd mewn Gofal Iechyd (ISQua) a safon 1720:19981 ISO/IEC.

Nod yr adolygiadau yw asesu a gwerthuso'r trefniadau sydd gan sefydliadau i sicrhau bod eu sail a'u swyddogaethau statudol yn eglur a bod ganddynt drefniadau boddhaol ar waith ar gyfer y canlynol:

- sail statudol yn glir a swyddogaethau wedi'u diffinio'n glir;
- annibyniaeth ac uniondeb, ac agwedd ddiduedd;
- cyfrinachedd a diogelu gwybodaeth;
- trefniadaeth a rheolaeth;

- systemau ansawdd;
- personél;
- cyfleusterau a chyfarpar;
- dulliau a gweithdrefnau arolygu;
- ymgysylltu a chyfathrebu â'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n destun adolygiad;
- bod yn agored a thryloyw;
- camau disgyblu;
- asesiadau effaith; a
- chydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys cyrff goruchwylio eraill.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tystiolaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

Rwy'n croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae hwn yn amserol iawn am sawl rheswm, gan gynnwys:

- Mae bron yn 10 mlynedd ers sefydlu AGIC. Yn y cyfnod hwn, cafwyd sawl datblygiad o ran gofal iechyd a'r ffordd y caiff ei ddarparu. Mae angen i'n systemau llywodraethu, gan gynnwys ein trefniadau arolygu a rheoleiddio, esblygu a chadw i fyny â'r newidiadau;
- Mae gan AGIC Brif Weithredwr newydd a fydd, mae'n siŵr, yn awyddus i ddatblygu ei gweledigaeth ei hun a llywio'r sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol a chan sicrhau'r gwerth gorau;
- Yr angen i ystyried yr hyn sydd gan gyrff arolygu a rheoleiddio i'w ddysgu yn sgil ymchwiliadau diweddar, yn enwedig Ymchwiliad Francis i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford yn Lloegr;
- Yr Adolygiad y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei gynnal o Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio.

Mae cyd-destun gweithredu terfynol AGIC yn dra gwahanol yn 2013 i'r hyn ydoedd yn 2003. Bryd hynny, yn ystod tymor y Cynulliad Cyntaf, tyfodd cyllideb Llywodraeth Cymru 10% bob blwyddyn, mewn termau arian parod. Erbyn hyn, bydd yr adnoddau sydd ar gael i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn gostwng ym mhob blwyddyn y mae rhagolygon ar gael ar ei chyfer.

Bydd casgliadau ac argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor yn ddefnyddiol er mwyn llywio'r gweithgareddau sydd ar y gweill i sicrhau ein bod yn parhau i fod â fframwaith arolygu a rheoleiddio gofal iechyd cydnerth, ond cymesur.

Rwyf wedi cynnig sylwadau isod ar y meysydd sy'n codi yn y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Ond hoffwn ychwanegu fy mod yn disgwyl, yn anad dim, i bob corff gofal iechyd fod â phrosesau sicrwydd mewnol cadarn a thryloyw er mwyn monitro a gwella safon a diogelwch gwasanaethau yn gyson. Ni ddylai unrhyw gorff ddibynnu'n ormodol ar fecanweithiau sicrwydd allanol. Roedd *Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol*, ein hymateb i Ymchwiliad Francis a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn cynnwys disgwyliadau a champau clir er mwyn sicrhau fframwaith sicrhau ansawdd system-gyfan dibynadwy a grymus.

2. Effeithiolrwydd AGIC wrth gyflawni ei phrif ddyletswyddau a'i chyfrifoldebau statudol

Swyddogaethau ymchwilio ac arolygu AGIC, yn enwedig ei chyfrifoldeb dros wneud yn siŵr fod gan gleifion wasanaethau diogel ac effeithiol, a'r ffordd y mae'n ymateb i ddigwyddiadau sy'n peri pryder difrifol a methiannau rheolaidd.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod yr amrywiol swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol sy'n perthyn i AGIC wedi ehangu'n sylweddol ers ei sefydlu yn 2004. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddeddfwriaeth mewn sawl maes gan fod y gwaith dan sylw mor eang a manwl. Er bod AGIC yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, ceir protocolau i sicrhau ac amddiffyn ei hymreolaeth a'i hannibyniaeth weithredol. Felly nid wyf fi, fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyfrannu o gwbl at benderfynu na chytuno sut y dylai gyflawni ei swyddogaethau na blaenoriaethu ei hadnoddau. Mae cynnal yr annibyniaeth weithredol hon yn hollbwysig.

Fel Gweinidog Iechyd, fodd bynnag, mae angen imi ddibynnu ar arolygiaeth sy'n asesu safon, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd yng Nghymru mewn ffordd wrthrychol ac annibynnol. Felly byddaf yn cyfarfod y Prif Weithredwr yn rheolaidd i ddysgu am y flaenraglen waith ac unrhyw themâu neu broblemau sy'n dod i'r amlwg. Byddaf hefyd yn derbyn copi o bob adroddiad arolygu ac ymchwilio. Mae AGIC yn ymgynghori'n helaeth ynglŷn â'i blaenraglenni gwaith ac felly mae Llywodraeth Cymru, fel yr holl randdeiliaid eraill, yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar y cynigion ac archwilio sut y mae AGIC yn bwriadu cyflawni ei hamrywiol gyfrifoldebau.

Rwy'n ymwybodol, fodd bynnag, fod heriau arbennig wedi wynebu AGIC yn ddiweddar wrth geisio recriwtio a chadw staff, ac mae'n amlwg y bydd hyn yn dylanwadu ar ei gallu i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. Rwy'n ymwybodol fod problemau o ran capasiti yn effeithio ar ba mor brydlon y cyhoeddir casgliadau adolygiadau, ac mae hynny'n destun pryder. Er hynny, rwy'n disgwyl i sefydliadau weithredu ar sail unrhyw adborth llafar cychwynnol cyn derbyn adroddiad, os sylwir ar unrhyw faterion brys a allai effeithio ar ansawdd a diogelwch.

Mae AGIC eisoes wedi nodi bod angen iddi adolygu'r ffordd y mae'n gweithio. Mae hynny'n cynnwys y ffordd y mae'n cydweithio â chyrrff adolygu allanol eraill er mwyn sicrhau adolygiadau trefnus a phenodol, gan osgoi dyblygu gwaith a gorgyffwrdd â chyrrff adolygu eraill. Mae ein hymateb i Ymchwiliad Francis yn crynhoi'r ymrwymiad hwn. Mae AGIC wedi ymrwymo i adolygu ei ffrydiau gwaith presennol er mwyn sicrhau bod y prif themâu a'r prif faterion sy'n deillio o argymhellion Francis yn cael eu hystyried. Mae hyn yn rhoi cyfle i

adeiladu ar y cryfderau a'r arferion da y mae AGIC wedi'u datblygu, gan gynnwys ei defnydd o arsylwi uniongyrchol; gofyn am farn staff, cleifion a pherthnasau yn ystod adolygiadau; cynnal ymweliadau dirybudd, gan gynnwys y tu allan i oriau craidd ac ar benwythnosau; a chynnwys cymheiriaid, arbenigwyr ac aelodau llewg ym mhob tîm adolygu.

Bu'r rhaglen o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd yn llwyddiant arbennig wrth helpu i ddarparu asesiad allanol o safonau gofal ac unrhyw welliannau angenrheidiol. Dangosodd AGIC ei gallu i ymateb yn gyflym i faterion sy'n peri pryder difrifol hefyd. Enghraifft o hyn oedd ei gwaith o fewn y sector gofal iechyd annibynnol yn sgil y pryderon difrifol a ddaeth i'r amlwg yn Winterbourne View. Ond wrth gwrs, mae datblygiadau o'r fath yn effeithio ar ei gallu i gyflawni ei rhaglen waith arfaethedig. Gellid cyfleu'n gliriach sut y bwriedir rheoli hyn.

Yn fwy diweddar, cafwyd ymateb cadarnhaol i waith AGIC yn cefnogi adolygiadau gan gymheiriaid. Mae'n bryd felly inni ystyried sut y mae'r gwaith hwn yn ategu'r adolygiadau y mae AGIC yn eu cynnal yn uniongyrchol.

3. Datblygiad ac atebolrwydd cyffredinol AGIC, gan gynnwys a yw'r sefydliad yn addas i'r diben

O'r cychwyn cyntaf, mae AGIC wedi datblygu amrywiaeth o ddulliau adolygu er mwyn cyflawni pob un o'i swyddogaethau a'i chyfrifoldebau fel arolygiaeth gofal iechyd benodol ac arbenigol. Bu'r trefniadau i gynnal ei hannibyniaeth weithredol yn llwyddiant, a dylid parhau â hynny. Erbyn hyn mae gan yr Arolygiaeth amryw o gryfderau y gall adeiladu arnynt er mwyn llywio'r capasiti, y gallu a'r gwaith partneriaeth sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol ac yn effeithlon, gan sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben. Er enghraifft, roedd yr adolygiad o ddulliau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gynhaliwyd ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar yn dangos effeithiolrwydd y trefniadau i rannu adnoddau ac arbenigedd er mwyn cynnal adolygiadau ar y cyd.

Hyd yn hyn mae AGIC wedi canolbwyntio'n bennaf ar leoliadau gofal iechyd aciwt. Rydym bellach yn symud at ofal mwy integredig yn y gymuned, ac mae'n amlwg y bydd angen i AGIC ystyried hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod. Felly mae'n bosibl y bydd AGIC am ystyried ei threfniadau mewnol i gefnogi'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau ac yn blaenoriaethu ei rhaglen waith.

4. Effeithiolrwydd y berthynas waith ag eraill, gan ganolbwyntio ar gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng AGIC, rhanddeiliaid allweddol a chyrrff adolygu eraill

Rwyf o'r farn fod AGIC wedi datblygu perthynas waith dda ac effeithiol ag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r Grŵp Penaethiaid Arolygiaethau yn cynnwys AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGGCC ac yn canolbwyntio ar gydweithio a rhannu gwybodaeth yn well. Mae AGIC hefyd wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu'r Concordat rhwng amrywiaeth eang o gyrrff archwilio, adolygu ac arolygu ym maes iechyd. Mae cyflwyno'r uwchgynhadledd gofal iechyd wedi rhoi fforwm pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Rwy'n croesawu'r ffaith fod AGIC wedi cymryd yr awenau yn hyn o beth yn sgil datblygu fframwaith sicrwydd allanol.

Mae'r gwaith hwn yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru o sicrhau bod adolygiadau allanol yn cael eu trefnu'n dda, yn gymesur, ac yn rhoi gwerth am arian. Mae hyn yn adeiladu ar y camau a gymerwyd yn sgil Mesur Llywodraeth Leol 2009 a'r datganiad polisi a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r flwyddyn honno ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio. Roedd hwn yn gam pwysig ymlaen, ond sylweddolwn fod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf o'r cyrrff hynny sy'n cynnal arolygiadau, a bod y cyrrff hynny sy'n cael eu harolygu yn cael y budd mwyaf ohonynt. Bydd yr adolygiad Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio sydd ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n targedu AGIC, Estyn, AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru, yn sail ar gyfer unrhyw newidiadau a datblygiadau angenrheidiol pellach.

5. Ystyried cyfraniad AGIC at gryfhau llais cleifion a'r cyhoedd o ran y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu

Mae AGIC ei hun wedi nodi bod angen parhau i gryfhau'r agwedd hon ar y ffordd y mae'n gweithredu, a sicrhau ei bod yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am ei gwaith, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol ddylanwadu arni. Croesewir y ffaith fod adolygwyr llewg yn cymryd rhan yn holl arolygiadau ac ymchwiliadau AGIC, ynghyd â'i gwaith datblygu. Mae'r gwaith ehangach sydd ar y gweill i gryfhau'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru hefyd yn rhoi cyfle i'r naill gorff a'r llall ddiffinio eu rôl yn fwy eglur; diffinio'r ffordd y maent yn ategu ei gilydd wrth gynrychioli llais cleifion a'r cyhoedd; a diffinio'r ffordd y maent yn cydweithio.

6. Trefniadau diogelu, yn enwedig trin gwybodaeth am gwynion a chwythu'r chwiban

Yn unol â'r trefniadau i amddiffyn annibyniaeth AGIC, nid wyf yn cyfrannu at benderfynu sut y mae'n ymdrin â'r materion hyn. Nid yw AGIC yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymchwilio i gwynion unigol am ofal a thriniaeth, ond mae'n gweithio'n agos ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod pryderon difrifol a themâu sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn llywio ac yn helpu i dargedu gwaith AGIC.

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2013

Amser: 09:15 – 15:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_17_10_2013&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees (Cadeirydd)
Leighton Andrews
Rebecca Evans
William Graham
Elin Jones
Darren Millar
Lynne Neagle
Gwyn R Price
Lindsay Whittle
Kirsty Williams

Tystion:

Imelda Richardson, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru
Nicola Amery, Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol
Cymru
Steve Bartley, Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol
Cymru
Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol.
Dr Andrew Goodall, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Karen Healey, Vale Healthcare
Albert Heaney, Llywodraeth Cymru

Katherine Murphy, Chymdeithas y Cleifion
Cathy O'Sullivan, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned
Cymru
Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth
Cymru
Martin Solis, Llywodraeth Cymru
Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru
Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru,
Swyddfa Archwilio Cymru

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Victoria Paris (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 1 – AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru

2.1 Atebodd cynrychiolwyr o AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

2.2. Oherwydd mater technegol, gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 9.17 a 9.23

3 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 2 – Cynrychiolwyr Byrddau Iechyd Lleol

3.1 Atebodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

4 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 3 – Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Chymdeithas y Cleifion

4.1 Atebodd cynrychiolwyr o Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Chymdeithas y Cleifion gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

5 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Panel 4 – Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru

5.1 Atebodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru gwestiynau aelodau'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd Nicola Amery i ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro pryderon Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru am drefniadau diogelwch (fel y codwyd ym mharagraff 7.1. o dystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru).

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – trafodaeth breifat i ystyried y dystiolaeth.

7.1 Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ar:

- Flaenraglen waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Yr ystod lawn o waith a chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf
- Dilyn tystiolaeth i waith arolygu
- Astudiaethau achos

8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gofal

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y memoranda diwygiedig ac atodol ar y Bil Gofal a chytunodd i ddychwelyd at y pwnc ar ôl y toriad hanner tymor.

9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 – sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

9.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15 gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

9.2 Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu sut y byddai'r gronfa gofal canolraddol o £50 miliwn yn cael ei dyrannu.

9.3 Gofynnodd y Pwyllgor am nodyn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn egluro pa wasanaethau ychwanegol sy'n wynebu dadfuddsoddiad er mwyn cefnogi amseroedd agor estynedig i feddygfeydd.

10 Papurau i'w nodi

10.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

10.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

10.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru – pecyn cymorth i bwyllgorau graffu ar gydraddoldeb

10.3 Nododd y Pwyllgor y pecyn cymorth.

11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 – trafodaeth breifat i ystyried y dystiolaeth.

11.1 Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ysgrifennu atynt i geisio eglurhad ar nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

11.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio'i waith o graffu ar y gyllideb ddrafft.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2013

Amser: 09:31 – 12:18

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_23_10_2013&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

David Rees (Cadeirydd)
Leighton Andrews
Rebecca Evans
William Graham
Elin Jones
Lynne Neagle
Gwyn R Price
Lindsay Whittle
Kirsty Williams

Tystion:

Ana Palazon, Gymdeithas Strôc
Paul Underwood, Gymdeithas Strôc
Lowri Griffiths, Gymdeithas Strôc
Dr Anne Freeman, Cymdeithas Ffisigwyr Strôc Cymru,
Dr Hamsaraj Shetty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro
Dr Yaqoob Bhat, Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Jan Smith, Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Amanda Smith, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Nigel Monaghan, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Hugo van Woerden, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nicola Davis-Job, Coleg Nyrsio Brenhinol
Carole Saunders, Coleg Nyrsio Brenhinol

Dr Amer Jafar, St Woolos Hospital
Dr Philip White, BMA Cymru Wales
Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol.
Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)
Helen Finlayson (Ail Clerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

- 1.1 Ymddiheurodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r tystion am yr oedi cyn dechrau'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar Nododd y Cadeirydd fod Gwyn Price wedi ymddiheuro ar gyfer rhan gyntaf sesiwn y bore.

2 Lleihau'r risg o stôc – ymchwiliad dilynol: Panel 1 – Y sector gwirfoddol

- 2.1 Oherwydd materion technegol, cafodd eitemau 2 a 3 eu trafod gyda'i gilydd.
- 2.2 Bu cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Strôc a Chynghrair Strôc Cymru yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.
- 2.3 Nododd Lowri Griffiths o'r Gymdeithas Strôc fod yr Athro Marcus Longley o Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cytuno i weithio gyda'r Gymdeithas i ddatblygu asesiad economaidd o wasanaethau strôc yng Nghymru. Hefyd, nododd Ms Griffiths fod Canolfan Ymchwil Clinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi nodi bod cyllid ar gael ei wneud yr asesiad. Cytunodd Ms Griffiths i gyflwyno'r gwaith hwn i'r Pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau.

3 Lleihau'r risg o stôc – ymchwiliad dilynol: Panel 2 – Cynghrair Strôc Cymru

- 3.1 Oherwydd materion technegol, cafodd eitemau 2 a 3 eu trafod gyda'i gilydd.
- 3.2 Bu cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Strôc a Chynghrair Strôc Cymru yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

4 Lleihau'r risg o stôc – ymchwiliad dilynol: Panel 3 – Byrddau Iechyd Lleol / Iechyd Cyhoeddus Cymru

- 4.1 Bu cynrychiolwyr o fyrddau Iechyd Lleol a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

4.2 Nododd Dr van Woerden fod darn o waith penodol yn mynd rhagddo ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ynghylch adsefydlu dioddefwyr dementia fasgwlaidd, ac y byddai manylion y gwaith hwn yn cael eu hanfon at y Pwyllgor.

4.3 Cytunodd Jan Smith, o Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y gost i Rwydweithiau'r Galon a'r Rhwydweithiau Canser o gyflogi rheolwyr sy'n goruchwyllo'r ffordd y caiff pob rhwydwaith ei redeg.

5 Lleihau'r risg o stôc – ymchwiliad dilynol: Panel 4 – Cyrff proffesiynol

5.1 Bu cynrychiolwyr o'r Coleg Nyrso Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

6 Lleihau'r risg o stôc – ymchwiliad dilynol: Panel 5 – Llywodraeth Cymru

6.1 Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor.

7 Papurau i'w nodi

7.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol: y gyllideb ddiogelu iechyd ac imiwneiddio

7a.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y gyllideb diogelu iechyd ac imiwneiddio.

7.2 Llythyr gan Fwrdd Rhaglen Cynllun De Cymru: gwybodaeth ddilynol o'r cyfarfod ar 3 Hydref

7b.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Fwrdd Rhaglen Cynllun De Cymru.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

9 Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Sesiwn frifio yng Nghyfnod 2

9.1 Cynhaliwyd sesiwn frifio ar weithdrefnau Cyfnod 2 y pwyllgor.

Eitem 5a

Gwenda Thomas AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LFGT096313

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Hydref 2013

Annwyl David,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig: Y Bil Gofal

Diolch am eich llythyr dyddiedig Medi 30 yn gofyn i mi egluro rhai materion sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ("yr LCM diwygiedig"). Yn benodol, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod pam nad yw'r LCM yn ystyried trefniadau cyfatebol i awdurdodau lleol yn yr Alban sicrhau parhad yn y trefniadau gofal o ganlyniad i fethiant ar ran y darparwr.

Nid oes darpariaeth benodol yn y Bil Gofal sy'n rhoi dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yn yr Alban. Byddai hyn yn mynd yn groes i adran 12 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yr Alban i ddarparu cymorth i unigolion yn eu hardaloedd sydd mewn angen.

Mae'r ddyletswydd o dan adran 12 yn gymwys hyd yn oed os yw'r unigolyn yn preswyllo'n arferol y tu allan i ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys unigolion a leolwyd mewn ardal awdurdod lleol yn yr Alban gan awdurdodau o Gymru Lloegr neu o Ogledd Iwerddon. Felly, os bydd awdurdod lleol yn y DU yn gosod oedolion mewn lleoliadau a reoleiddir yn yr Alban, neu fod yr unigolion eu hunain yn trefnu hynny, bydd ganddynt ryw lefel o amddiffyniad petaent yn ddigon anffodus i weld eu trefniadau gofal yn methu o ganlyniad i fethiant ar ran y darparwr.

Efallai'ch bod yn ymwybodol bod newidiadau pellach i'r Bil Gofal (a gyflwynwyd ar 7 Hydref) wedi peri bod rhaid i mi gyflwyno Memorandwm Atodol a Chynnig ar y newid i gymal 39 a 71 o'r Bil hwnnw sy'n cael effaith ar Gymru ac o'r herwydd ofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad. Bydd y newidiadau hyn yn gwella'r trefniadau cyfatebol y cyfeirir atynt yn yr LCM diwygiedig am barhad gofal ar draws ein ffiniau. Mae'n gwneud nifer o ddiwygiadau i adran

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Tudalen 120

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel y mae'n gymwys i Gymru, mewn perthynas â dyletswyddau awdurdod lleol ar gyfer ôl-ofal iechyd meddwl.

Isod, mae dolenni i'r wybodaeth y cyflwynais ar 9 Hydref.

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250840&ds=10/2013>

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250841&ds=10/2013>

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried yr LCMs, yn enwedig i'r graddau y maent yn gorgyffwrdd â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwy'n siŵr eich bod yn deall cymhlethdod y newidiadau i'r Bil Gofal ac i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod trefniadau cyfatebol (cyn belled ag y bo'n ymarferol) sy'n esbonio pob sefyllfa bosib a all ddigwydd i unigolyn, roedd yn anochel y byddai hyn yn arwain at LCM Atodol pellach.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y sail ddeddfwriaethol ar gyfer parhad y trefniadau gofal fel y maent yn gymwys i'r Alban. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu anfon y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a'r Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol byddaf yn aros yn eiddgar i'r Adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir



Gwenda Thomas AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Eitem 5b

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/3279/13

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSCCommittee@wales.gov.uk

31 Hydref 2013

Annwyl David

Sesiwn Graffu – Gofal heb ei drefnu: parodwydd ar gyfer gaeaf 2013-14

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 9 Hydref cyfunais i roi gwybodaeth ichi am y canlynol:

- i. Esboniad o'r trefniadau i roi brechiadau rhag y ffliw i blant yn y practis cyffredinol neu yn yr ysgol, a'r oed y bydd plant yn cael y brechiadau hyn;
- ii. Darparu dolen i'r adroddiad blynyddol ar berfformiad practisau meddygon teulu o'i gymharu â'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd perthnasol;
- iii. Darparu manylion pellach am y polisi o gynnig triniaeth ddewisol y tu allan i GIG Cymru os nad yw'r gwasanaeth yn gallu ei ddarparu oherwydd pwysau'r gaeaf;
- iv. Ystyried cwblhau gwaith i asesu effaith gohirio gofal dewisol ar ofal heb ei drefnu yng Nghymru;
- v. Darparu dolenni/copïau o gynlluniau'r Byrddau Iechyd ar gyfer gofal heb ei drefnu.

Yn ogystal â hynny, cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i roi manylion am y prosiectau gofal integredig sydd ar y gweill yng Nghymru.

Cais gan y Pwyllgor am wybodaeth bellach

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi dweud ei fod yn awyddus i gael gwybodaeth bellach am y canlynol:

- i. Sut y byddwn yn ystyried cynyddu'r capasiti ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod cyfnodau eithriadol o brys yn y gaeaf, nid mewn ysbysol yn unig;
- ii. Y rhesymeg a gaff ei mabwysiadu er mwyn dosbarthu'r £150 miliwn yn ychwanegol a ddyrannwyd i'r portffolio Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, fel y cyhoeddwyd ar 8 Hydref 2013.

Sesiwn Graffu – Gofal heb ei drefnu: parodrwydd ar gyfer gaeaf 2013-14

- i) Esboniad o'r trefniadau i roi brechiadau rhag y fflw i blant yn y practis cyffredinol neu yn yr ysgol, a'r oed y bydd plant yn cael y brechiadau hyn
- Bydd meddygon teulu yn brechu plant 2 a 3 oed
 - Caiff disgyblion blwyddyn 7 (11-12 oed) eu brechu yn yr ysgol.
- Gofynnir i feddygon teulu hefyd:
- Frechu unrhyw blentyn ym mlwyddyn 7 nad yw'n cael ei frechu yn yr ysgol, am ba bynnag reswm;
 - Cynnig brechlyn i'w chwistrellu i unrhyw blentyn y cynghorir iddo beidio â chymryd y chwistrell Fluenz drwy'r trwyn.
- ii) Darparu dolen i'r adroddiad blynyddol ar berfformiad practisau meddygon teulu o'i gymharu â'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd perthnasol
- Cyhoeddwyd yr ystadegau diweddaraf yn ymwneud â'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol: Ystadegau'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd ar gyfer Cymru, 2012-13, ym mis Medi 2013. Mae'r rhain yn cynnwys data ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2013. Gellir dod o hyd i'r ystadegau ar y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd drwy ddilyn y ddolen hon:
- <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2013/general-medical-services-contract-quality-outcomes-framework-2012-13/?skip=1&lang=cy>
- iii) Darparu manylion pellach am y polisi o gynniq triniaeth ddewisol y tu allan i GIG Cymru os nad yw'r gwasanaeth yn gallu ei ddarparu oherwydd pwysau'r gaeaf
- Mae modd caniatáu i'r Byrddau lechyd ddefnyddio capasiti yn rhywle arall o hyd, a hynny nail ai drwy Fwrdd lechyd Lleol arall yng Nghymru yn y lle cyntaf, ac yna o fewn y GIG yn Lloegr. Dim ond os na fydd y posibiladau hyn yn dwyn ffrwyth y gall Byrddau lechyd Lleol geisio capasiti ychwanegol yn y sector annibynnol yng Nghymru a Lloegr, os nad ydynt yn gallu ymdopi â'r galw yn lleol.
- Rhaid i'r Byrddau lechyd roi gwybod i Lywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu defnyddio capasiti amgen, a rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth eu bod wedi sicrhau gwerth am arian os ydynt yn penderfynu rhoi'r gwaith allan ar gontract.
- iv) Ystyried cwblhau gwaith i asesu effaith gohirio gofal dewisol ar ofal heb ei drefnu yng Nghymru
- Ar hyn o bryd, mae Byrddau lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro wedi hysbysu Lywodraeth Cymru eu bod yn ceisio sicrhau capasiti ychwanegol i drin cleifion cardiaidd. Mae hyn yn cael ei wneud ar y cyd â Phwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru. Mae Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn trefnu i hyd at 112 o gleifion gael eu trin gan ddarparwr eraill. Mae Bwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd wedi cyfluno â Phwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru ar gynlluniau i drin cleifion nad ydynt yn llwyddo i'w trin o fewn 36 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd hyn yn golygu defnyddio darparwr allanol ar gyfer rhywfaint o'r gwaith.

iv) Ystyried cwblhau gwaith i asesu effaith gohirio gofal dewisol ar ofal heb ei drefnu yng Nghymru

Mae trafodaethau ar y gweill ag un Bwrdd lechyd i gasglu'r wybodaeth hon er mwyn cael darlun i'n galluogi i ddeall y mater yn well. Rhoddir diweddiariad pellach unwaith inni dderbyn yr wybodaeth hon. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth hon yn ganolog ar hyn o bryd, fodd bynnag.

v) Darparu dolenni/copiau o gynlluniau'r Byrddau lechyd ar gyfer gofal heb ei drefnu

Mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r Byrddau lechyd i'w hatgoffa fy mod yn disgwyl iddynt gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gofal heb ei drefnu. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi diweddiariad ar y mater maes o law.

Yn ogystal â hynny, cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i roi manylion am y prosiectau gofal integredig sydd ar y gweill yng Nghymu.

Mae manylion y prosiectau gofal integredig sydd ar y gweill yng Nghymru i'w gweld yn Atodiad 1.

Cais gan y Pwyllgor am wybodaeth bellach

i) Sut y byddwn yn ystyried cynyddu'r capasiti ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod cyfnodau eithriadol o brysur yn y gaear, nid mewn ysbysbai yn unig

Paratowyd cynlluniau ar gyfer y gaear ar y sail fod capasiti yn golygu mwy na gwelyau mewn ysbysbai. Er bod y cynlluniau wedi rhoi llawer o sylw i sicrhau bod ysbysbai yn gallu ymdopi'n briodol â'r galw, mae'r holl Fyrddau lechyd wedi bod yn edrych ar gapasiti yn y gymuned, gan weithio'n agos â phartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd hyn i'r eithaf.

Er enghraifft, mae Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn diwygio ac yn gwella ei drefniadau amserlennu ac ariannu'r Timau Adnodd Cymunedol ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, mewn ymgais i gynyddu capasiti'r Sector Gofal Cartref a chan weithio gyda'r trydydd sector i edrych ar gyfleoedd.

Mae Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn datblygu gwasanaethau gofal canolraddol cadarn ar gyfer y gaear, gan ddefnyddio gwelyau ailalluogi mewn cartrefi gofal a fflatiau tymor byr â darpariaeth ailalluogi mewn Tai Gofal Ychwanegol.

Mae'r ddogfen ar Ddatblygu Gwasanaethau Cymunedol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 hefyd yn tynnu sylw at amrywiaeth o fodelau a ddatblygwyd mewn ymgais i gael gwell cydbwysedd rhwng galw a capasiti drwy gydol y flwyddyn. Bydd adroddiad y Grŵp Rhwyngwneb Ysbysbai a'r Gymuned hefyd yn cynnwys argymhellion i asesu a sicrhau bod digon o gapasiti ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

ii) Y rhesymeg a gaiff ei mabwysiadu er mwyn dosbarthu'r £150 miliwn yn ychwanegol a ddyrannwyd i'r portfolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, fel y cyhoeddwyd ar 8 Hydref 2013

Amlinellais fy rhesymeg ar gyfer dosbarthu'r £150 miliwn yn ychwanegol yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar 17 Hydref 2013.

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements.htm?act=dis&id=251137&ds=10/2013>

Hyderaf fod yr uchod yn glir ac yn fuddiol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style with a large initial 'M'.

Mark Drakeford AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Community Service Development – LHBs in Wales

Background

Following on from the presentation to the Nuffield Institute on the local developments within community services in Wales, a summary document was prepared outlining the various community service models that Health Boards across Wales were either developing or implementing (drafted March 2013). In order to gain a broader understanding of these models, the following report outlines how these initiatives are to be measured and monitored going forward, along with a summary of the progress that is being made in terms of their development and implementation.

In order to get a sense of the models that are being developed, information has been captured on:

- The overall aim of the initiative and the services that are to be provided.
- Whether these services are being delivered in specific localities or LHB wide and in conjunction with partners outside of secondary care health services.
- Whether the Health Board has received Invest to Save funds to develop/implement its model.
- The mechanisms that have been put in place to measure improvements.

Overview of Models – Key Points

The following is a snapshot summary of the Community Service Delivery models being implemented across Wales:

- All of the Health Boards in Wales are either developing or implementing at least one mode that will assist in the development of community health care services. In some instances the number of projects that are being delivered amount to Five (Powys Teaching Health Board).
- All of the models include partnership working with Secondary Care services, including Primary Care partners, Local Government, Social Services and/or third sector organisations.
- Seven of the eleven projects are being delivered LHB wide.

- The key outcome benefits for the majority of the models are: reduced length of stay/early discharge; reduced admissions into secondary care services and; improved outcomes for the patient (e.g. reablement).
- The majority of Health Boards are utilising efficiency and productivity health measures to demonstrate the success of their community models (e.g. the number of admissions, average length of stay etc.) along with social care measures such as delayed transfer of care performance. In addition, some Health Boards (ABMU, Cardiff & Vale, Cwm Taf and Hywel Dda) have also incorporated mechanisms that will enable patient experience to be quantified.

A fuller description of the models for each Health Board are provided on the following pages, whilst the actual plans, progress reports etc provided by each health board are available on request.

Health Board	Model	Page
Abertawe Bro Morgannwg University	Community Resource Teams	4
Aneurin Bevan	Gwent Frailty Programme	5
Betsi Cadwaladr University		6
Cardiff & Vale University	Wyn Campaign	7
Cwm Taf	@ Home Services	9
Hywel Dda	Out of Hospital Care Model	10
Powys	Reablement Services	12
	Care Transfer Co-ordinators	12
	Community Resource Team	12
	Builth Model	13
	Virtual Ward	13

Invest to Save Funds

Across Wales, four Health Boards are receiving Invest to Save funds from Welsh Government to develop their Community Service models. Those receiving Invest to Save funds are:

Health Board	Community Service Model
Aneurin Bevan	Gwent Frailty Programme
Cardiff & Vale University	Wyn Campaign
Cwm Taf	@ Home Services
Hywel Dda	Community Virtual Ward (part of Out of Hospital Care Model)

All of the aforementioned Health Boards are currently in discussions with Welsh Government's Knowledge and Analytical Services and Swansea University's Centre for Innovative Ageing in order to develop a robust evaluation framework for the Invest to Save projects. It is hoped that the framework will assist in the identification of the benefits realised from Community Service projects (cost savings, the impact on service user wellbeing and model testing), whilst recognising the difficulties of measuring benefits in the short term and for older people's services where there is a greater need for hospital care and increased co-morbidity.

An interim report on the development of individual evaluation plans for the Invest to Save projects is to be made available during July 2013, but it is anticipated that this preparatory work will continue until June 2014.

Additional Community Service Projects

In addition to providing information on the projects that were already known to Welsh Government (as outlined in the March 2013 Summary), Health Boards were asked to provide details of any other community service projects that were being developed and implemented. Appendix A - Additional Community Service Projects provides a brief summary of the projects being implemented by ABMU, Cardiff and Vale and Cwm Taf.

Health Board

ABMU

Additional Community Service Projects

Acute GP Unit at Singleton Hospital (Swansea)

Acute Clinical Team (Neath Port Talbot)

Integrated Health and Social Care Teams (Bridgend)

Cardiff & Vale

Elderly Care Assessment Service

Cwm Taf

Reablement Services for People with Cognitive Impairment

Discharge Liaison Pilot

Home Medication Administration Service

Going Forward

It is recommended that Community Service Models should be included on the agenda for future Quality and Delivery meetings, linked to unscheduled care activity.

Community Resource Teams			
Aim	To support people to live at home, preventing hospital admissions and to facilitate timely discharge from hospital.		
Service Description	<p>The following are some of the services in place within Swansea, NPT, and Bridgend areas:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nurse-led rapid response assessment (within 4 hours) – 8.00am to 8.00pm, 7 days a week. • Consultant-led 'hot clinics' to provide in-depth assessment, with further access to further investigation & rehabilitation. • Single point access to all adult social care and intermediate care services. • Nurse led falls assessment within 24 hours of referral. • Home IV antibiotic therapy, includes prescribing antibiotics, monitor patients & review bloods. • Emergency placements for clients who are not able to be supported within their home. • Stroke rehabilitation. • Continuing health care services – nursing, domiciliary & respite care. • Specialist practitioners including palliative, tissue viability, dementia, medicine management, continence, young person's sexual health education. • Reablement services including residential reablement. • Integrated approaches to contracting, contract monitoring and quality assurance of long term care being developed through the Western Bay Programme. • Integrated community network teams of district nurses, social workers and occupational therapists co-located in community hubs in plans in Bridgend. • Expanded services in place in Neath Port Talbot following changes in community hospital service model and more out of hospital care pathways in place between primary and secondary care. 		
Scope of Service	Local delivery - Swansea, Neath Port Talbot and Bridgend.		
Delivery Partners (In addition to Secondary Care)	Swansea <ul style="list-style-type: none"> • GP • Local Authority • Third Sector 	Neath Port Talbot <ul style="list-style-type: none"> • GP • Out of Hours • Local Authority 	Bridgend <ul style="list-style-type: none"> • Local Authority • Third Sector • GPs
Invest to Save Funding	No.		
Timeline for Improvements	Each locality service has started from a different timeline and there is a different emphasis across the localities. Through the Western Bay Health and Social Care Reform Programme and the Health Board's Changing for the Better Programme, a new joint Community Services Project Board has been established which will drive the development of improved community services (including CRT services) across the whole area. Modelling work to look at options for scaling up current health and social care is being finalised; an initial business case has been developed and detailed business cases will be presented in December. A standard specification for the CRT is being developed. A standard set of performance metrics are also being developed to ensure consistency in measuring outcomes.		
Key Principles being Monitored	<ul style="list-style-type: none"> • Rapid medical assessment/diagnostics • Rapid response – admission avoidance 	<ul style="list-style-type: none"> • Domiciliary rehab • Domiciliary intake reablement 	<ul style="list-style-type: none"> • Residential IC beds

